

PWYLLGOR:	IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG
DYDDIAD:	12 Hydref 2021
TEITL:	CAIS AM DRWYDDED EIDDO - TRAWSFYNYDD HOLIDAY PARK CAFE AND BAR
PWRPAS:	ER PENDERFYNIAD
AWDUR:	PENNAETH AMGYLCHEDD

1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Trawsfynydd Holiday Park Café And Bar, Trawsfynydd Leisure Village, Bronaber, Trawsfynydd, LL41 7YB. Mae'r cwmni cyfyngedig yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer caffi/bar cynllun llawr agored, gyda deciau i eistedd y tu allan. Bydd defnydd yr eiddo ar gael i letywr gwyliau a'u gwesteion yn y parc.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â chwarae cerddoriaeth wedi recordio ar yr eiddo, lluniaeth hwyr y nos a gwerthu alcohol ar, ac oddi ar yr eiddo.
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Derbyniwyd sawl gwrthwynebiad gan breswylwyr cyfagos; manylion ym mhellach ymlaen yn yr adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig:

Oriau Agor / Opening Hours:

Dydd Sul/Sunday	08:00	-	01:00
Dydd Llun/Monday	08:00	-	01:00
Dydd Mawrth/Tuesday	08:00	-	01:00
Dydd Mercher/Wednesday	08:00	-	01:00
Dydd Iau/Thursday	08:00	-	01:00
Dydd Gwener/Friday	08:00	-	01:00
Dydd Sadwrn/Saturday	08:00	-	01:00

Gweithgareddau Trwyddedadwy / Licensable Activities:

Cerddoriaeth wedi ei Recordio/Recorded Music: Dan do :: Indoors

Dydd Sul/Sunday	10:30	-	23:00
Dydd Llun/Monday	10:30	-	23:00
Dydd Mawrth/Tuesday	10:30	-	23:00
Dydd Mercher/Wednesday	10:30	-	23:00
Dydd Iau/Thursday	10:30	-	23:00
Dydd Gwener/Friday	10:30	-	00:00
Dydd Sadwrn/Saturday	10:30	-	00:00

Lluniaeth yn Hwyr y Nos/Late Night Refreshments: Dan do ac Awyr Agored :: Indoors and Outdoors

Dydd Sul/Sunday	23:00	-	00:30
Dydd Llun/Monday	23:00	-	00:30
Dydd Mawrth/Tuesday	23:00	-	00:30
Dydd Mercher/Wednesday	23:00	-	00:30
Dydd Iau/Thursday	23:00	-	00:30
Dydd Gwener/Friday	23:00	-	00:30
Dydd Sadwrn/Saturday	23:00	-	00:30

Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol: Ar ac oddi ar yr Eiddo :: Both on and off the Premises

Dydd Sul/Sunday	08:00	-	23:00
Dydd Llun/Monday	08:00	-	23:00
Dydd Mawrth/Tuesday	08:00	-	23:00
Dydd Mercher/Wednesday	08:00	-	23:00
Dydd Iau/Thursday	08:00	-	23:00
Dydd Gwener/Friday	08:00	-	23:00
Dydd Sadwrn/Saturday	08:00	-	23:00

Amseriadau Ansafonol

Noswyl Nadolig / Blwyddyn Newydd

Dyddiau Sadwrn a Sul dros Benwythnosau Gŵyl y Banc

Amser terfyn am 02:00

1. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant staff cynhwysol (marsial tân, polisi gwirio oedran, iechyd a diogelwch)
- Gweithredu polisi gwirio oedran (herio 25)
- Cerddoriaeth gefndirol yn unig, ni fydd adloniant byw
- Arwyddion digonol i dynnu sylw at yr angen i barchu cymdogion lleol wrth adael
- Ymarferion tan i'w cynnal yn wythnosol/misol

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

2. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

YMATEBION	SYLWADAU
Perchnogion o gabanau cyfagos	23 ymatebydd yn gwrthwynebu / 1 yn cefnogi
Adran Gwarchod y Cyhoedd	Sylwadau
Heddlu Gogledd Cymru	Dim gwrthwynebiad

3.1 Perchnogion cabanau / preswylwyr cyfagos

Derbyniwyd 23 o wrthwynebiadau i'r cais, gan berchnogion y cabanau cyfagos. Cyfeiriodd llawer at eu pryderon parthed caniatâd cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a nodir os bydd y drwydded yn cael ei ganiatáu fel ac y mae yn unol â'r cais, bydd hyn yn groes i ofynion y caniatâd cynllunio. Roedd sawl ymatebydd wedi nodi fod y rhybudd glas ddim i weld yn glir oherwydd datblygiad strwythur y caban, a bod y datblygiad yn creu perygl i'r rhai sydd yn cerdded ac yn defnyddio'r ffordd. Mae'r parc mewn ardal o statws awyr dywyll wedi'i warchod, ac mae sawl yn pryderu fod niwsans sŵn a golau am amharu ar y lleoliad a chabanau cyfagos, gan fod tŷ tafarn lleol i'r ardal bellach wedi cau. Nodir fod rhai yn pryderu am gynnydd sbwriel, materion o drosedd ac anrhefn (pobl leol yn cymysgu gydag ymwelwyr, pobl yn goryfed) a bod yr oriau arfaethedig yn ormodol. Cynigwyd gan sawl ymatebydd buasai'n synhwyrol gostwng yr oriau trwyddedu i 22:00 a bod amser terfyn amseriad ansafonol o 02:00 yn ddiangen ac afresymol, oherwydd natur yr ardal yn gyffredinol. Derbyniwyd un ymateb yn cefnogi'r cais.

3.2 Adran Gwarchod y Cyhoedd

Nodwyd y dylid ystyried caniatâd cynllunio cais Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, rhif: NP5/78/519A sydd yn gosod oblygiadau i'r ymgeisydd, a nodir fod y cais yn mynd yn groes i ganiatâd cynllunio presennol sydd ar yr eiddo. Os bydd ymgeisydd darparu cais o'r newydd i Adran Cynllunio Parc Eryri, fe all gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ddarparu sylwadau ar faterion perthnasol pryd hynny, felly nid oes gwrthwynebiad i'r cais mewn egwyddor.

3.3 Heddlu Gogledd Cymru

Nid oedd tystiolaeth gan yr Heddlu i wrthwynebu'r cais.

4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn caniatáu'r cais yn unol â sylwadau Gwarchod y Cyhoedd â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.